

Gwaith Is-bwyllgor Maes B – i gyfarfod am y tro cyntaf nes mlaen yn y flwyddyn newydd yn 2020.

1. Swyddogion y pwyllgor fydd yn arwain ar y gwaith a'r trafodaethau, sef:

- **CADEIRYDD:** Dyletswydd y Cadeirydd yw arwain ac ysbrydoli'r aelodau wrth gadeirio'r pwyllgorau yn effeithlon, gan gynrychioli barn y pwyllgor yn y Pwyllgor Gwaith.
- **YSGRIFENNYDD:** Prif swyddogaeth yr Ysgrifennydd yw cofnodi yn gywir a threfnus ac mewn Cymraeg graenus, gan anfon copi o'r cofnodion at y Trefnydd drwy e-bost o fewn tri diwrnod ar ôl y cyfarfod.

Bydd y Cadeirydd yn dod yn aelod o Bwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, a gofynnir i'r Ysgrifennydd fynychu yn ei h/absenoldeb.

2. Rheolau Sefydlog – cyn gwneud dim arall, mae angen eu darllen a'u derbyn yn swyddogol fel pwyllgor.

3. Pwyllgor Gweithgareddau Maes B

Mae dyletswyddau'r Pwyllgor yn hynod bwysig i godi ymwybyddiaeth a diddordeb yn y ffaith fod yr Eisteddfod yn dod i Lŷn ac Eifionydd yn Awst 2021 a Seremoni'r Cyhoeddi yn haf 2020.

Bydd gan y pwyllgor rôl bendant i adnabod beth yw'r anghenion yn lleol a beth fydd pobl yn dymuno ei weld yn digwydd yn yr ardal trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, gan drafod syniadau a chyfleoedd ar sut i wireddu'r anghenion hyn trwy fanteisio ar ddyfodiad yr Eisteddfod.

4. Prif waith Pwyllgor Gweithgareddau Maes B

Bydd y dyletswyddau yn cael eu rhannu fel a ganlyn:

- Ystyried trefnu gig yn ystod wythnos y cyhoeddi
- Awgrymu a chynnig syniadau ac enwau artistiaid posib ar gyfer Llwyfan y Maes, **Maes B a Chaffi Maes B ar y Maes.**
- Cynorthwyo i hyrwyddo a marchnata digwyddiadau Maes B.
- Annog bandiau newydd i gystadlu ym Mrwydr y Bandiau a gynhelir yn ystod yr wythnos.
- Cyfleoedd i gynorthwyo gyda gosod ac addurno Maes B a gwaith mewn ysgolion ayb.

Bydd Is-bwyllgor Maes B yn cyfarfod yn y flwyddyn newydd.

Sioned Edwards - Dirprwy Bennaeth Artistig: sioned@eisteddfod.org.uk

Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU / 0845 409 0300